# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 5

DARPARIAETHAU NAD YDYNT OND YN GYMWYS I GONTRACTAU DIOGEL

## PENNOD 5

CONTRACTAU SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDEDIG

### 116 Gorchymyn sy'n arddodi contract safonol cyfnodol oherwydd ymddygiad gwaharddedig

(1) Os yw'r landlord o dan gontract diogel yn landlord cymunedol neu'n elusen gofrestredig, caiff y landlord wneud cais i'r llys am orchymyn o dan yr adran hon ar y sail fod deiliad y contract wedi torri adran 55 (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall).

(2) Effaith gorchymyn o dan yr adran hon yw—

(a) terfynu'r contract diogel o ddyddiad a bennir yn y gorchymyn, a

(b) os yw deiliad y contract yn parhau i feddiannu ar ôl y dyddiad penodedig, creu contract safonol cyfnodol y mae ei ddyddiad meddiannu ar y dyddiad a bennir yn y gorchymyn (ac sy'n gontract safonol cyfnodol hyd ddiwedd y cyfnod prawf).

(3) Ni chaiff y llys wneud gorchymyn o dan yr adran hon onid yw'n fodlon—

(a) bod deiliad y contract wedi torri adran 55,

(b) y byddai wedi gwneud gorchymyn adennill meddiant ar y sail yn adran 157 (tor contract) ar sail yr achos hwnnw o dor contract yn unig,

(c) y bydd y landlord yn sicrhau bod rhaglen o gymorth cymdeithasol ar gael i ddeiliad y contract, sydd â'r nod o atal ymddygiad gwaharddedig, a

(d) ei bod yn rhesymol gwneud y gorchymyn.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 116 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynglŷn â'r gweithgareddau a'r gwasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau cymorth, cyngor a chwnsela) y caniateir eu cynnwys mewn rhaglen o gymorth cymdeithasol at ddibenion is-adran (3).

(5) Mae Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfnodau prawf, ynghylch y weithdrefn ar gyfer cael gorchymyn o dan yr adran hon, ac ynghylch telerau contract safonol cyfnodol sy'n cael ei greu o dan yr adran hon.

(6) Yn y Ddeddf hon, ystyr "contract safonol ymddygiad gwaharddedig" yw contract sy'n gontract safonol cyfnodol sy'n cael ei greu yn sgil gorchymyn o dan yr adran hon, ac nad yw ei gyfnod prawf wedi dod i ben eto.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 116 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 116(1)-(3), (5)(6) mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**I3** A. 116(4) mewn grym ar 5.8.2016 at ddibenion penodedig gan O.S. 2016/813, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

**I4** A. 116(4) mewn grym ar 1.12.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 116 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5